



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Agored
Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru
a Gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023, 14:00
Lleoliad: drwy Microsoft Teams**

Yn Bresennol:		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
Hefyd yn Bresennol:		
Rachel Attwood	(RA)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Sarah Brewer	(SB)	Pennaeth Profiad Gweithwyr, Pobl/Gweithlu/AD
Matthew Browne	(MB)	Rheolwr Adnoddau Strategol a Chynllunio'r Gweithlu, Pobl/Gweithlu/AD
Emily Christopher	(EC)	Dragonfish
Liz Heath	(LH)	Cynrychiolydd y staff
Angela Jones	(AJo)	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant, y Tîm Gweithredol
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd y staff, Ymunodd am 15:03
Ymddiheuriadau		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Samantha Morgan	(SM)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Mewnwelediadau a Gwasanaeth

Iechyd Cyhoeddus Cymru		Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod (Agored) Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl 18 Ebrill 2023	
Joe O'Brien		(JOB)	Arweinydd Systemau'r Gweithlu a Dadansoddeg, Pobl/Gweithlu/AD
Ysgrifenyddiaeth			
Andrew Morton		(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Dechreuodd y cyfarfod am 14:00			
PODC 1/ 2023.04.18		Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol, gan nodi'r ymddiheuriadau a ddaeth i law. Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i helpu gyda chywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl i'r pwyllgor gytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol a gynhelir ar 19 Gorffennaf 2023. Estynnodd MM groeso i JW i'r cyfarfod fel Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fel aelod o'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl. Estynnodd MM hefyd groeso i PV i'w gyfarfod cyntaf o Bwyllgor Iechyd Cyhoeddus Cymru fel Ysgrifennydd newydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd.			
PODC 2/ 2023.04.18		Datgan Buddiannau	
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.			
PODC 3/ 2023.04.18		Eitemau er sicrwydd	
PODC 3.1/ 2023.04.18		Blaenoriaethau Trosfwaol ar gyfer Datblygu Sefydliadol a Phobl ar gyfer 2022/23: Y Tair Prif Flaenoriaeth	
Cyflwynodd NL yr eitem, gan amlinellu pwrpas yr eitem, sef ystyried y blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer Datblygu Sefydliadol a Phobl a soniodd am y meysydd gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2023/24. Cyflwynodd NL y tair prif flaenoriaeth strategol trosfwaol: • Diwylliant a Phrofiad • Effeithiolrwydd y Sefydliad • Adnoddau a Phrosesau. Eglurodd y byddai'r rhain yn ffocws i waith y gyfarwyddiaeth eleni, a nododd mai'r addewid pobl oedd ffocws yr eitem nesaf ar yr agenda, ac mae hyn yn ymhelaethu ar y flaenoriaeth gyntaf, sef Diwylliant a Phrofiad. Diolchodd MM i NL am y trosolwg.			
PODC 3.1.1/ 2023.04.18		Addewid i'r Bobl	

Rhoddodd EC gyflwyniad yn sôn am y cynnydd wrth gyflawni drafft cyntaf yr Addewid i'r Bobl. Addewid i'r Bobl yw'r arlwy y mae'r sefydliad yn ei chynnig i'w bobl yn gyfnewid am eu gwaith caled, eu hymrwymiad i'r weledigaeth ac ymlyniad at werthoedd y sefydliad. Amlinellodd y pum amcan yn yr addewid pobl:

- Bod yn arloesol ac yn unedig i ddod ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghyd i helpu i ddenu, recriwtio a chadw pobl amrywiol a thalentog.
- Cefnogi diwylliant a chefnogi pobl i fyw yn unol â'r gwerthoedd.
- Cynyddu'r cysylltiad rhwng pobl a phwrpas y sefydliad.
- Cynnig cyfleoedd o ran llwybrau gyrfa a datblygiad.
- Cefnogi llesiant a gwella ein ffyrdd o weithio a chefnogi gweithio gartref

Datblygwyd Addewid i'r Bobl drwy ddefnyddio nifer o ddulliau ymchwil gwahanol gan gynnwys cyfweiliadau â rhanddeiliaid, cyfarfodydd ymgysylltu ac adolygiad o ddogfennau allweddol o fewn y Sefydliad. Roedd y drafft o'r Addewid I'r Bobl yn cynnwys chwe gwahanol flaenoriaeth:

1. Gwneud gwahaniaeth;
2. Ymreolaeth;
3. Teimlo'n dda;
4. Cysylltiad;
5. Cyfleoedd a
6. Amrywiaeth.

Mireiniwyd y meysydd hyn yn dri philer a oedd yn cefnogi elfen trosfwaol Llesiant o fewn y Sefydliad; ystyried posibilïadau, creu cysylltiadau a thrawsnewid bywydau.

Diolchodd MM i EC am y cyflwyniad a gofynnodd am sylwadau gan y Pwyllgor.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Fynegi ei ganmolïaeth i'r tîm am y gwaith arloesol.
- Trafod yr angen i ystyried y ffordd y defnyddir y Cynnig yn Ymwneud â Gwerth Cyflogeion yn allanol, a brandio cysylltiedig i ddenu staff i sicrhau bod y brand allanol yn cyd-fynd â'r gwaith mewnol a wneir. Cadarnhaodd EC y byddai'r ddogfen hon yn sylfaen i ddatblygiad pellach y Cynnig yn Ymwneud â Gwerth Cyflogeion, ac wrth roi'r ddogfen hon ar waith byddai'n rhaid ystyried sut y caiff ei defnyddio a'i hyrwyddo'n fewnol yn ogystal ag yn allanol. Yn allanol, byddai darn o waith yn cael ei wneud ar frand cyflogwyr a sut y câi'r brand ei drosi i gynnwys recriwtwyr at ddibenion mewnol ac allanol. Ychwanegodd NL fod y tîm Cyfathrebu yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Addewid i'r Bobl a'u bod yn datblygu ac yn trosi hwn yn ddeunyddiau mewnol ac allanol.
- Trafod yr ystod o bartnerïaid allanol a oedd wedi'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r Addewid i'r Bobl; Cytunodd NL i rannu'r rhestr o randdeiliaid a oedd wedi cymryd rhan.

Camau Gweithredu: NL/SM

- Awgrymu y dylid ystyried dulliau a ddefnyddir gan Fyrddau Iechyd eraill, megis defnyddio fideos hyrwyddo, i ddenu darpar aelodau o staff i weithio mewn meysydd penodol.
- Nodi pwysigrwydd sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn y deunyddiau yn ddealladwy ac yn glir, gan ddefnyddio terminoleg a fyddai'n cael ei deall yn allanol i sicrhau bod y deunyddiau yn hygyrch i bawb.
- O ran ein hymgysylltiad â'n partneriaid strategol, nodi bod angen i hyn gael ei fynegi yn ein hymgysylltiad â'r partneriaid, a oedd yn elfen allweddol o sut y byddai'r sefydliad yn cyflawni'r strategaeth hirdymor; bod partneriaid Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi profi'r Cynnig yn Ymwneud â Gwerth Cyflogeion hwn drwy eu hymwneud â ni.
- Trafod pwysigrwydd yw hyrwyddo negeseuon am iechyd cyhoeddus; pam mae atal ac ymyrraeth gynnar yn bwysig i leihau niwed y gellir ei osgoi. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r tîm ystyried sut y byddai'r negeseuon strategol hyn am faterion iechyd cyhoeddus yn rhan o'n gwaith brandio allanol.
- Nodi bod gwerthoedd yn ymwneud â chyflogeion yn elfen gref yn y ddogfen, a oedd yn nodi'n glir werthoedd y Sefydliad mewn perthynas â chefnogi ei staff.
- Nodi'r angen i sicrhau bod y cynllun yn cynnwys costau priodol i sicrhau ei fod yn realistig ac yn gyraeddadwy.
- Awgrym i ystyried sut i adlewyrchu'r cynnig cyflog o fewn y ddogfen.
- Yn y camau datblygu nesaf, mae'n bwysig sicrhau bod cynigion gwirioneddol a phendant wedi'u cynnwys i ddangos yn glir yr effaith y gallai hyn ei chael ar y gweithlu yn fewnol ac yn allanol.

Diolchodd NL i aelodau'r Pwyllgor am eu mewnbwn gan ddweud ei fod wedi nodi'r awgrymiadau ar gyfer datblygu'r Addewid i'r Bobl ymhellach. Nododd fod y camau nesaf yn cynnwys trosi'r gwaith hwn yn offer a deunydd i'w defnyddio at ddibenion recriwtio.

Awgrymodd NL y dylid cynnwys RBW a KY yn y gwaith o ddatblygu'r Addewid i'r Bobl o ran ei wedd allanol.

Camau Gweithredu: NL/RBW/KY

Ychwanegodd EC fod yr Addewid i'r Bobl yn rhan o waith ehangach ar draws y Sefydliad i ddod ag elfennau o'r trawsnewidiadau'n ymwneud â diwylliant a'r strategaeth at ei gilydd i ddangos sut y maent yn gweithio'n gyffredinol i gyflogeion ac o ran profiad allanol. Y cam nesaf fyddai datblygu'r Addewid i'r Bobl er mwyn troi hyn yn gynnig i ddarpar gyflogeion gan gynnwys 'Gweithio yn y Ffordd Sy'n Gweithio Orau', mapio llwybrau gyrfa a llesiant gweithwyr.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, a chafodd **sicrwydd** bod y gwaith yn cael ei gyflawni ar amser ac yn unol â'r cynllun.

PODC 3.1.2/ 2023.04.18	Diweddariad ar Gynllunio'r Gweithlu
-----------------------------------	--

Rhoddodd MB gyflwyniad yn crynhoi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu. Cyfeiriodd MB at y canlynol:

- Trafferthion o ran y cyflenwad a'r galw sy'n effeithio ar weithlu'r sefydliad. Roedd gwahanol ddulliau wedi'u treialu yn y gorffennol ac roedd y ffocws presennol ar rolau staff critigol.
- Pedair her yr oedd y Sefydliad yn eu hwynebu wrth recriwtio staff: Heriau'n ymwneud â busnes; Heriau sefydliadol; Denu talent; a Chadw talent.
- Roedd cyflawni'r Strategaeth Hirdymor yn effeithiol yn dibynnu ar weithredu'r Strategaeth Pobl, yr Addewid i'r Bobl a Chynllunio'r Gweithlu, gan sicrhau y gellir darparu gwasanaeth i bobl Cymru. Roedd agwedd allweddol ar hyn yn cynnwys datblygu'r Cynnig yn Ymwneud â Gwerth Cyflogaion.
- Yn sgil cynllunio'r gweithlu, llwyddwyd i nodi rolau critigol o fewn y sefydliad, cronfeydd swyddi a chronfeydd talent, gan ganiatáu i gyllid gael ei neilltuo i'r lleoedd â'r angen mwyaf. Byddai cydweithredu o fewn y sefydliad ac yn allanol gyda sefydliadau partner, er enghraifft sefydliadau academiaidd, hefyd yn cael ei nodi wrth gynllunio'r gweithlu.

Yna, dangosodd MB y Dangosfwrdd ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, a oedd yn dangos y trosiant staff a ragwelir, yr ymgeiswyr newydd, ffrydiau cyllid, dyddiad cychwyn targed, graddau'r trafferthion i lenwi swyddi, yr elfen sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi a dynodi rolau critigol.

Byddai arweinwyr cyfarwyddiaethau yn cyfrannu at y Dangosfwrdd ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, a byddai'r Dangosfwrdd yn destun adroddiad i'r Tîm Gweithredol Busnes, a byddai adroddiad sicrwydd blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd dadansoddiad o'r farchnad lafur wedi dangos bod staff ar gael yng Nghymru, a faint o staff y byddai eu hangen o'r tu allan i Gymru. Gellid gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol mewn ysgolion a phrifysgolion i annog ceisiadau o'r sector hwnnw. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol cysylltu hyn â'r Strategaethau Data a Digidol sy'n cael eu datblygu, gan ystyried sut y gellid cynnwys y mathau hyn o ddata ar y dangosfwrdd i lywio'r camau gweithredu a gymerir.

Nododd MB y camau allweddol nesaf wrth gynllunio'r gweithlu:

- Adolygiad o ddata ar draws y Sefydliad
- Datblygu cynlluniau penodol i adnabod bylchau tymor canolig a hirdymor
- Datblygu ymyriadau i gau'r bylchau a welwyd.

Trafododd y Pwyllgor:

- A ddylid cynnwys data ynghylch y Gymraeg fel rhan o'r adolygiad hwn, gan nodi'r her i recriwtio i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.
- Yr angen hefyd i ystyried data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

- Y bwriad i ddatblygu'r dangosfwrdd ymhellach er mwyn dadansoddi'r data ymhellach.
- Y dylid cynnwys hyfforddiant a datblygiad staff yn y dangosfwrdd i gyd-fynd â'r gwaith cynllunio ariannol sydd ei angen i hwyluso anghenion hyfforddi.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar gynllunio'r gweithlu yn y cyfarfod nesaf.

Camau Gweithredu: LB/NL

PODC 3.2/ 2023.04.18	Ymgysylltu â Staff a Phartneriaethau
PODC 3.2.1/ 2023.04.18	Gweithio yn y Ffordd Sy'n Gweithio Orau

Rhoddodd RA gyflwyniad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau gwerthusiad yr arolwg o Chwarter 2. Roedd y ffigurau'n dangos bod y treial wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau cynhyrchiant, cymhelliant a ffactorau personol eraill, fodd bynnag roedd yn gallu effeithio ar y berthynas rhwng timau. Nodwyd yr effaith negyddol ar lesiant corfforol, ond roedd hyn yn cyd-daro â chyfnod y gaeaf a'r argyfwng costau byw.

Nodwyd bod mwy nag 85% o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg wedi nodi bod yn well ganddynt y trefniant a fabwysiadwyd gan y sefydliad, a chadarnhawyd hyn gan y sylwadau testun rhydd a dderbyniwyd ac yn y trafodaethau agored.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Nodi, yn ogystal â'r effeithiau cadarnhaol ar lesiant staff, na fu effaith negyddol o ran darparu gwasanaethau.
- Nodi'r angen i fod yn ymwybodol o'r risg o deimlad ynysig ymhlith staff a oedd yn gweithio gartref.
- Gofyn sut y cafodd 'gweithio yn y ffordd sy'n gweithio orau' ei gyflwyno i staff a oedd yn gweithio o'r gweithle. Eglurodd NL fod hyn wedi cael ei drafod gyda'r staff hyn, a bod angen edrych ar sut y gellid ymgorffori hyblygrwydd cynyddol y trefniant yn dibynnu ar sefyllfaoedd unigol.

Diolchodd MM i'r tîm am y cyflwyniad, gan ganmol y dull gweithredu hwn, a oedd yn fenter a oedd wedi ennill gwobrau.

PODC 3.2.2/ 2023.04.18	Costau Byw (Camau i Gefnogi Staff / Adroddiad Cau)
-----------------------------------	---

Rhoddodd RA ddiweddariad llafar ar y Cynllun Gweithredu ar Gostau Byw. Rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl oruchwylio £30,000 i gefnogi staff drwy'r argyfwng costau byw. Cynhaliwyd gweminarau, rhai y tu allan i oriau gwaith, ar gais y Fforwm Staff ac roedd plattform llesiant ariannol yn galluogi staff i gael mynediad at gyflogau a chynilo yn uniongyrchol o'u cyflogau. Roedd y sefydliad yn parhau i ystyried y

pwysau o ran costau byw a'i gefnogaeth i staff drwy ei raglen llesiant a thrwy Gynllun Gweithredu Urddas Mislif Llywodraeth Cymru.

Daeth y Cynllun Gweithredu i ben ym mis Mawrth 2022, ac roedd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cau. Dim ond un cam gweithredu sy'n parhau i fod yn berthnasol, sef sicrhau bod oriau ychwanegol ar gael i weithwyr presennol, ac mae hyn yn cael ei adolygu gan y Pennaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl. Roedd copi o'r Cynllun Gweithredu ar gael gan RA.

**PODC 3.2.3/
2023.04.18**

Fforymau Gweithio Mewn Partneriaeth Gyda'r Undebau Llafur - Diweddariad

Rhoddodd NL ddiweddariad i'r Pwyllgor am waith ei Gyfarwyddiaeth a'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

Trafododd y Pwyllgor:

- Bwysigrwydd y Fforwm Partneriaeth Lleol ac ymgysylltiad effeithiol gydag Ochr yr Undebau Llafur.
- Y lefelau presenoldeb ar y Fforwm Partneriaeth Lleol; roedd y Cylch Gorchwyl yn nodi'r gofynion presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn, a byddai hynny'n cael ei adolygu.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai dim ond un cynrychiolydd Staff oedd yn cefnogi'r Prosiect Newid oherwydd secondiad. Cytunodd y Cynrychiolwyr Staff hefyd ar bwysigrwydd cyfarfodydd partneriaeth, gan nodi bod uwch-aelodau o staff yn hwyluso cyfarfodydd yn dda.

Gofynnodd y Pwyllgor am adolygiad o'r lefelau presenoldeb yng nghyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Lleol, ynghyd â gwerthusiad o'r ffigurau presenoldeb i sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o staff yn bresennol mewn cyfarfodydd.

Camau Gweithredu: NL

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd o'r diweddariad ar y trefniadau partneriaeth o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**PODC 3.3
2023.04.18**

Egwyl

**PODC 3.4/
2023.04.18**

Dangosfwrdd Sicrwydd Ynghylch Perfformiad

Rhoddodd NL drosolwg byr o'r Dangosfwrdd a gofynnodd i aelodau'r Pwyllgor wneud sylwadau neu anfon e-bost ato gydag awgrymiadau ar gyfer datblygiadau a gwelliannau pellach, yn enwedig lle byddai data pellach yn ddefnyddiol.

Y pwyntiau allweddol a nodwyd oedd y gostyngiad mewn lefelau absenoldeb salwch ym mis Mawrth; roedd lefelau dyrchafiad o fewn y sefydliad yn uchel; roedd ffigurau hyfforddi ac arfarnu yn gyson â'r misoedd blaenorol ac roedd gwaith yn parhau i gynyddu ffigurau cydymffurfio.

Gofynnodd y Pwyllgor i ymchwiliad gael ei gynnal i'r rheswm 'anhysbys' generig gan ei fod yn cynrychioli canran uchel o'r grŵp yn gyffredinol mewn sawl achos ar y Dangosfwrdd, ac felly nid oedd yn helpu i ddeall y data a gyflwynwyd. Gofynnodd y Pwyllgor i gysylltiadau â Chynllunio'r Gweithlu gael eu hystyried ar gyfer y Dangosfwrdd, gan gynnwys ffigurau ar gyfer y categorïau 'swyddi sy'n cael eu hysbysebu' a 'swyddi y mae'n anodd recriwtio iddynt'.

Cytunodd NL i edrych ar yr awgrymiadau hyn gyda JOB ac i gyflwyno tueddiadau hanesyddol a data cymharol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Camau Gweithredu: NL/JOB

Dywedodd SB wrth y Pwyllgor y byddai, yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf, yn cyflwyno data i'r cyfarfod nesaf ar y rhaniad o ran rhywedd ac oedran staff sy'n gadael y sefydliad. Roedd archwiliad cychwynnol o'r data yn dangos nad oedd y rhai a oedd yn gadael y sefydliad yn dilyn y duedd genedlaethol, gan ddangos bod ffigurau'r sefydliad yn groes i ffigurau data cenedlaethol.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y gellid defnyddio'r Dangosfwrdd i dynnu sylw at feysydd lle nad yw ffigurau cyfartalog bob amser yn amlygu tueddiadau pwysig, megis recriwtio i swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi. Dywedodd RBW wrth y Pwyllgor fod recriwtio i swyddi yng Ngogledd Cymru wedi'i gynnwys yn yr eitem ganlynol ar yr agenda, sef Risgiau. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol cysylltu gwybodaeth am risgiau â'r dangosfwrdd i gael darlun cyflawn.

Cafwyd trafodaeth ynghylch adrodd ar ddata amrywiaeth, y rhesymau pam y bu cyfraddau methiant i ddatgan yn uchel. Awgrymwyd y dylid ymgynghori â'r Tasglu Hawliau Anableddau gan ddefnyddio eu profiad yn y maes hwn.

Diolchodd MM i'r tîm am y diweddariad, a chafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd.

**PODC 3.5/
2023.04.18**

Rheoli Risgiau

Cyflwynodd RBW y Cofrestrau Risgiau Strategol a Chorfforaethol, gan nodi bod trafodaethau blaenorol yn gynharach yn y cyfarfod wedi ymdrin â'r ddau risg strategol.

Hysbysodd NL y Pwyllgor fod gwaith yn dal i fynd rhagddo i liniaru'r risgiau hyn gan nodi'r gallu o ran adnoddau a chapasiti i gefnogi a chyflawni gwaith y sefydliad yn llawn. Byddai datblygiad presennol y Cynnig yn Ymwneud â Gwerth Cyflogeion ynghyd â datblygiadau o ran cynllunio'r gweithlu yn cael ei ddefnyddio i ddenu a recriwtio staff i'r sefydliad a lleihau'r risg.

Gofynnodd y Pwyllgor lle roedd materion wedi eu cofnodi a oedd yn deillio o'r trefniant lletya newydd gyda Gweithrediaeth y GIG. Dywedodd NL wrth y Pwyllgor fod cyfarfodydd wedi'u cynllunio o fewn y sefydliad i godi materion yn ymwneud â hyn, ac y byddai'r risgiau a nodwyd yn cael eu cynnwys yn y Cofrestrau Risgiau Strategol a Chorfforaethol pan gânt eu diweddarau.

Trafododd y Pwyllgor y tair risg gorfforaethol sy'n ymwneud â'r Pwyllgor hwn. Nododd dadansoddiad manwl diweddar yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella y byddai cydweithio o fewn y gweithlu meddygol yn ffordd o lenwi'r bylchau a nodwyd.

Mewn trafodaeth ynghylch cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, nodwyd bod ei gyflawni'n dibynnu ar heriau recriwtio a allai effeithio ar yr amserlenni.

Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad bod yr holl Gynlluniau Newid o fewn y sefydliad wedi'u nodi. Cadarnhaodd NL fod gwaith wedi'i wneud i nodi'r holl Gynlluniau Newid o fewn y 12 mis nesaf. Roedd proses wedi'i rhoi ar waith i sicrhau y byddai'r holl gynlluniau newydd yn mynd rhagddynt drwy brosesau mewnol y cytunir arnynt i sicrhau bod adnoddau llawn ar eu cyfer.

Fe wnaeth Pwyllgor:

- **Ystyried** y Cofrestrau Risgiau Strategol a Chorfforaethol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor
- Cael **sicrwydd** bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol

PODC 3.6/ 2023.04.18	Diweddariad Polisi Chwemisol
Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad polisi chwemisol, a nododd fod cynnydd wedi'i wneud i wella nifer y polisïau a oedd yn gyfredol (cynnydd o 2%). Gofynnodd y Pwyllgor am amserlen a oedd yn manylu pryd y dychwelir i lefelau cydymffurfiaeth llawn. Dywedodd LB wrth y Pwyllgor fod polisïau'n perthyn i ddau gategori, sef y rhai sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r rhai sy'n dod o dan gylch gwaith Cymru Gyfan. Cytunodd LB i amlygu'r gwahaniaeth hwn mewn diweddariadau yn y dyfodol. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth adolygu polisïau corfforaethol, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.	
PODC 4/ 2023.04.18	Eitemau i'w Cymeradwyo
PODC 4.1/ 2023.04.18	Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi (12 Ionawr 2023 a 15 Mawrth 2023)

Iechyd Cyhoeddus Cymru		Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod (Agored) Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl 18 Ebrill 2023	
Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023 a 15 Mawrth 2023. Cymeradwyodd y Pwyllgor y dylid cau'r pedwar cam gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.			
PODC 5/ 2023.04.18		Argymhellion i'r Bwrdd	
Derbyniodd y Pwyllgor yr Adolygiad Cylch Gorchwyl Blynyddol, Cynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 a'r Adolygiad o Effeithiolrwydd ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau a gynigiwyd yn yr Adolygiad Blynyddol o'r Cylch Gorchwyl ac argymhellodd y dylid ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mai. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith/Adolygiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau ac argymhellodd y dylid ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mai. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd ac argymhellodd y dylid ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mai.			
PODC 6/ 2023.04.18		Eitemau i'w Nodi	
PODC 6.1/ 2023.04.18		Traciwr Archwiliadau	
Derbyniodd y Pwyllgor y Traciwr Archwilio a oedd yn amlygu'r camau gweithredu a oedd yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Roedd y camau gweithredu wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ei gyfarfod diwethaf ar 16 Mawrth 2023. Nododd y Pwyllgor yr eitem hon, gan ddiolch i Uned Fusnes y Bwrdd am dynnu sylw at bwysigrwydd gweithio ar draws pwyllgorau. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid datblygu ymhellach ddarnau o waith ar draws pwyllgorau, a nododd LB y sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod a chytunodd i ddatblygu cyfarfodydd ar y cyd ar gyfer Cadeiryddion pedwar Pwyllgor y Bwrdd yn rheolaidd. Camau Gweithredu: LB			
PODC 7/ 2023.04.18		Materion Gweinyddol i Gloi	
Codwyd un eitem o dan 'unrhyw fater arall'. Soniodd SB wrth y Pwyllgor am gais posibl yn ymwneud â Chamau Gweithredu'r Cadeirydd, a fyddai'n cael ei gyflwyno cyn y cyfarfod nesaf i geisio cymeradwyaeth i gyhoeddi Cynllun Ymgynghori Clinigol Cymraeg. Dylai'r			
Dyddiad: 18 Ebrill 2023		Fersiwn: Drafft	
Tudalen: 10			

cynllun fod wedi'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2023, fodd bynnag, yn sgil oedi wrth dderbyn gwybodaeth gan wasanaethau rheng flaen, gwnaed cais i Gomisiynydd y Gymraeg i gyhoeddi'r adroddiad cyn gynted â phosibl, a chytunwyd ar hyn.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor anfon unrhyw adborth ynghylch y cyfarfod at LB drwy e-bost. Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi trefn yr agenda mewn fformat rhesymegol ac ar ffurf naratif.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: **19 Gorffennaf 2023**

Daeth y cyfarfod i ben am 16:47

DRAFT